



# Oherwydd IPCC!

## Hanes a Gwyddoniaeth y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd


BECAUSE IPCC
MAE OHERWYDD IPCC AR GAEL AR
https://becauseipcc.thesuccession.ca
RHANNWCH O GYDA PHAWB !
MAE EICH RHODDION YN
EIN HELPU I GANFOD MWY O DDARLLENWYR !
ARCHWILIWCH OS GWELWCH YN DDA
https://becauseipcc.thesuccession.ca



TORONTO, YN 2120.
BORE DA, ERIN !
BORE DA, NEL !
BORE DA, IANTO !


DYDD MAWRTH, 7 MAI.
Y TYMHEREDD UCHAF HEDDIW FYDD 20°C
ANNI, MAE GEN TI BêL-DROED AR ôL YSGOL HEDDIW.


BORE DA MS DASKALOS
BORE DA BAWB



IAWN DDOSBARTH, HEDDIW FYDDWN NI'N DYSGU AM . . .
THE INTERGOVERNMENTAL PANEL ON CLIMATE CHANGE
Y PANEL RHYNGLYWODRAETHOL AR NEWID HINSAWDD
OES UNRHYW UN YN GWYBOD BETH YDI O?
Y PETH WNAETH ACHUB Y BYD IE?
IE, WILLIAM MADOCKS, DYNA UN FFORDD O'I DDWEUD O
OES UNRHYW UN YN GWYBOD *SUT* WNAETH YR IPCC ACHUB Y BYD?


MAE NA GLIW YN YR ENW.
ROEDD GAN Y BYD BROBLEM FAWR . . . GYDA NEWID HINSAWDD
YR ADEG HONNO ROEDD LLAWER O DRYDAN Y BYD YN DOD O LOSGI MATH O GARREG FFLAMADWY O'R ENW GLO.
ROEDD CEIR YN CAEL EU PŴER, TAI YN CAEL EU GWRESOGI A FFATRÏOEDD YN CAEL EU CYNNAL GAN YNNI DOEDD DDIM YN ADNEWYDDADWY, OND GAN HYLIFOEDD A NWYON O DAN Y DDAEAR – FEL Y CERRIG FFLAMADWY YNA.
WAETH OTS PA MOR LÂN OEDD Y MWG O'R HOLL LOSGI YNA ROEDD O DAL YN LLAWN NWY ANWELEDIG O'R ENW CARBON DEUOCSID.


DYNA OEDD Y BRIF BROBLEM OND ROEDD PETHAU ERAILL YN ACHOSI PROBLEMAU MAWR.
ROEDD Y NEWIDIADAU HYN YN YR AER YN GWNEUD EIN PLANED YN BOETHACH.
ROEDD PLANHIGION AC ANIFEILIAID YN DIODDEF; NIFER WEDI EU COLLI AM BYTH.
CODODD LEFELAU'R MÔR; ROEDD TAI POBOL YN DIODDEF O LIFOGYDD.
AC FE WNAETH POBOL DDECHRAU MYND YN NEWYNOG.
Washington Post
scientists say
The New York Times
Climate Report Describes a
Risk of Crisis as Early as 2040
The Guardian
AC ROEDD HI'N EDRYCH FEL FOD PETHAU AM BARHAU I FYND YN WAETH . . .

O 1980, NODDODD SEFYDLIADAU ARBENIGOL Y CENHEDLOEDD UNEDIG - WMO AC UNEP – NIFER O GYNADLEDDAU AM WYDDONIAETH HINSAWDD OND PENDERFYNWYD SEFYDLU UN CORFF AWDURDODOL I ORUCHWYLIO'R WYDDONIAETH. SEFYDLWYD Y PANEL RHYNGLYWODRAETHOL AR NEWID HINSAWDD YN ôL YM 1988 A'I GYMERADWYO GAN GYNULLIAD CYFFREDINOL Y CENHEDLOEDD UNEDIG.




*FFRAMWAITH CONFENSIWN CU AR NEWID HINSAWDD NEU **UNFCCC**


† 193 NID OEDD DINAS Y FATICAN (HOLY SEE) A PALESTINA YN AELODAU O'R CENHEDLOEDD UNEDIG AR Y PRYD



CYN YR IPCC ROEDD MWY A MWY O BRYDERON YMYSG GWYDDONWYR AM YR HINSAWDD YN NEWID.
OND DOEDD YR UNOL DALEITHIAU DDIM EISIAU I YCHYDIG O WYDDONWYR BERI PRYDER I BAWB PE BYDDAI NI WEDYN YN GWELD NAD OEDD CYNHESU BYD-EANG YN GYMAINT A HYNNY O BROBLEM.
Mostafa Kamal Tolba
Michael Oppenheimer
Jill Jäger
Bert Bolin
Stephen H. Schneider
FELLY FE WNAETH YR UD A GWLEDYDD ERAILL ANNOG YR UN I SEFYDLU'R IPCC I WELD OS OEDD MWY O WYDDONWYR YN CYTUNO.
ipcc
HEDDIW, YN 2120, MAE LLYWODRAETHAU, BUSNESAU A PHOBOL WEDI NEWID SUT RYDYM YN PWERU EIN BYD AC RYDYM WEDI SEFYDLOGI'R HINSAWDD.
MAE'R IPCC YN DAL I YSGRIFENNU ADRODDIADAU MWY NA 130 O FLYNYDDOEDD YN DDIWEDDARACH I GADARNHAU EIN BOD YN RHEOLI'R BYD YN IAWN.
ER, PAN DDECHREUODD YR IPCC,
YN GYNTAF ROEDD YN RHAID IDDO BROFI FOD NEWID HINSAWDD YN DIGWYDD GO IAWN.
ROEDD O'N DIPYN O HER. FE GYMERODD DDWY FLYNEDD I YSGRIFENNU'R ADRODDIAD CYNTAF !


ROEDD GWYDDONWYR YR IPCC WEDYN ANGEN PROFI NAD OEDD Y NEWID YN YR HINSAWDD YN NATURIOL AC MAI GWEITHGARWCH POBL OEDD YN ACHOSI HYN.
WRTH IDDYNT YSGRIFENNU EU HAIL, TRYDYDD A PHEDWERYDD ADRODDIAD ASESIAD A.Y.B.
1990
1989
. . . FE WNAETH YR IPCC GYNNWYS MWY A MWY O ARBENIGWYR O DDISGYBLAETHAU GWAHANOL. YN LLE CYMRYD DWY FLYNEDD, ROEDD YSGRIFENNU ADRODDIADAU YN CYMRYD PEDAIR BLYNEDD, CHWE BLYNEDD, WYTH MLYNEDD I'W PARATOI.
ROEDD HYN OHERWYDD, PO FWYAF ROEDD YR IPCC YN ASTUDIO NEWID HINSAWDD, PO FWYAF ROEDDYNT YN SYLWI Y GALLAI EFFEITHIO AR YR ECONOMI, EIN HIECHYD, FFERMIO, EIN HECOSYSTEMAU BYD-EANGA MWY.
ROEDD ANGEN CYNNWYS ARBENIGWYR BRODOROL GYDA GWYBODAETH DRADDODIADOL.
ROEDD ANGEN YSTYRIED Y GWYDDORAU CYMDEITHASOL YN FWYFWY.
ROEDD ANGEN CYNNWYS GWYDDONWYR AC ARBENIGWYR O GYMAINT O DDISGYBLAETHAU.


ER FOD GWEITHREDU GO IAWN YN ARAF YN CYCHWYN,
ROEDD Y BYD YN DECHRAU SYLWEDDOLI PA MOR BWYSIG OEDD GWAITH YR IPCC.



YN HYTRACH, YR IPCC ROEDD YN CASGLU, DADANSODDI A CHRYNHOI DEGAU O FILOEDD O BAPURAU YMCHWIL A GYHOEDDWYD MEWN CYFNODOLION GWYDDONOL PENODOL – HOLL WYBODAETH DYNOLIAETH – AM EIN HINSAWDD, SUT OEDD O'N NEWID, EFFAITH HYNNY A SUT I'W HOSGOI.




OES UNRHYW UN YN GWYBOD BETH YW'R DULL GWYDDONOL?
IE, IANTO?
DYNA SUT MAE GWYDDONWYR YN PROFI PETHAU !
DA IAWN, IANTO, ER, MAE HI'N RHWYDDACH I WRTHBROFI RHYWBETH NAC YDI I'W BROFI.
BETH AM ADAEL I'R ATHRO SIRMILIK, YR ARBENIGWR MEWN RHEWLIFOEDD, EI EGLURO.
AWN, DEWCH I NI WELD. ASTUDIAETH YN DEFNYDDIO'R DULL GWYDDONOL.
IAWN, DYMA UN. OS YDI NEWID HINSAWDD YN WIR, AC MAE'R BYD YN CYNHESU, YNA MI FYDDAI'R RHEWLIF CYFFREDIN YN DECHRAU YMDODDI'N GYNT NAC O'R BLAEN.
OND YDI HYNNY'N WIR?



I GYNNAL ASTUDIAETH YN DEFNYDDIO'R DULL GWYDDONOL, YN GYNTAF, MAE ARNA I ANGEN HYPOTHESIS, SEF DATGANIAD FOD FY ASTUDIAETH YN GALLU CEFNOGI BOD YN WIR NEU, PE BYDDWN I'N ANGHYWIR, DDIM YN WIR.
RESULTS
FELLY, YN YR ACHOS HWN, FY HYPOTHESIS YW FOD RHEWLIFOEDD O AMGYLCH Y BYD YN MYND YN LLAI NAC OEDDEN NHW. SUT ALLAI BROFI FY HYPOTHESIS FELLY? MAE YNA NIFER O REWLIFOEDD YN Y BYD... AC MAE AMSER YN FFACTOR BWYSIG.
TRWY DDEWIS TUA 40 O REWLIFOEDD O WAHANOL LEFYDD YN Y BYD,
AC ASTUDIO RHEINY'N FANWL AM DDEGAWDAU
MAE FY NGHYDWEITHWYR A FINNAU WEDI CAEL SYNIAD DA IAWN O SUT MAE RHEWLIFOEDD YN YMDDWYN.

AC YN WIR, ROEDD MESURIADAU'R RHEWLIFOEDD A ELWIR YN RHAI "CYFEIRIO" YN DANGOS BOD BRON I BOB RHEWLIF WEDI BOD YN COLLI EU "CYDBWYSEDD MAS" – MAE HI'N DAL I FWRW EIRA AR GOPA'R MYNYDDOEDD SY'N YCHWANEGU MAS OND MAE'R YMDODDI'N DIGWYDD YN GYNT NA MAE'R EIRA'N EI YCHWANEGU.





MAE TYSTIOLAETH AM NEWID HINSAWDD WEDI CAEL EI CHASGLU DROS SAWL BLWYDDYN GAN SAWL GRŴP O WYDDONWYR YN CYNNAL ASTUDIAETHAU YN DEFNYDDIO'R "DULL GWYDDONOL" I ARCHWILIO AMREDIAD EANG O BYNCIAU GWYDDONOL.


MAE GWYDDONWYR YN YSGRIFENNU ADRODDIAD AR SAIL Y CANLYNIADAU FEL Y BYDD GWYDDONWYR ERAILL YN GWYBOD BETH MAENT WEDI EI DDYSGU. OND MAE HYN YN FWY NA MATER O'I GOFNODI'N UNIG.
O, DYMA DR SILVA I EGLURO.
HELO BAWB. RWY'N ASTUDIO HINSAWDD Y BYD FEL MAE'N CAEL EI GOFNODI GAN GOED.
PAN FYDDAI'N YSGRIFENNU ADRODDIAD DWI EISIAU CAEL Y NIFER FWYAF O BOBOL I'W DDARLLEN. FELLY DWI'N CYFLWYNO'R ADRODDIAD, SYDD HEFYD YN CAEL EI ALW'N "BAPUR", I'W GYHOEDDI MEWN CYFNODOLYN WYDDONOL.
OND NID YW'R CYFNODOLYN YN DERBYN FY NGAIR I FOD FY YMCHWIL I'N DDA IAWN; FOD FY NGHANFYDDIADAU'N WYCH AC YN DDIDDOROL.
YN LLE HYNNY, MAENT YN GOFYN I GRIW O WYDDONWYR ERAILL YN GYNTAF. ARBENIGWYR ERAILL SY'N DEALL BETH YW EFFAITH HINSAWDD Y BYD AR GOED.
NID YDYNT YN DWEUD WRTHA I PWY YW'R GWYDDONWYR ERAILL. MAEN NHW'N ANHYSBYS.
NHW YW FY NGHYFOEDION. DYNA PAM MAE'N CAEL EI ALW'N ADOLYGIAD CYFOEDION.




TRWY OLYGYDD Y CYFNODOLYN MAENT YN GOFYN CWESTIYNAU I MI AM FY YMCHWIL. OS YDW I WEDI GWNEUD CAMGYMERIAD, MAENT YN DWEUD HYNNY WRTHA I.
DIM OND AR ÔL I MI ATEB UNRHYW GWESTIYNAU Y MAE FY NGHYFOEDION WEDI EU HOLI Y MAE'R GOLYGYDD YN FODLON CYHOEDDI FY MHAPUR.
HAHA! TWYLLAIS I CHI.
FI YW DR SAMPADIKA, GOLYGYDD CYFNODOLYN WYDDONOL.
MAE GWYDDONWYR EISIAU CAEL EU CYHOEDDI MEWN CYFNODOLYN OND MAENT HEFYD EISIAUCAEL EUCYHOEDDI MEWN CYFNODOLYN O SAFON.
DA CHI'N GWELD, MAE LLWYDDIANT GYRFA GWYDDONYDD YN CAEL EI FESUR YN ÔL Y NIFER O ERTHYGLAU MAENT WEDI EU CYHOEDDI. A GORAU FYTH OS YW'R CYFNODOLION O SAFON UCHEL HEFYD. MAE'N CAEL SYLW MWY O DDARLLENWYR AC O BOSIB MWY O GYFEIRIADAU GAN ERAILL AT Y GWAITH.
nature
ACT
Science
DROS AMSER, GALL CAEL CYFEIRIADAU AT EICH GWAITHYNG NGWAITH GWYDDONWYR ERAILL YCHWANEGU AT BWYSIGRWYDD EICH PAPUR CHI.
Science
MAE O'N DEBYG I ASESIAD CYFOEDION NAD YW BYTH YN DOD I BEN.
SEF PAN FO GWYDDONWYR ERAILL YN CYFEIRIO AT EICH PAPUR GWYDDONOL CHI YN EU PAPUR NHW.






ROEDD YNO FWY NA 100 O SEFYDLIADAU ARSYLWI, GAN GYNNWYS GRWPIAU BUSNES A SEFYDLIADAU ER BUDD Y CYHOEDD.



OEDD, ROEDD Y DDAU BEGWN EITHAFOL YNO.
CLIMATE EMERGENCY
GREENPEACE
GRWPIAU FEL GREENPEACE AC ENVIRONMENTAL DEFENCE YN OGYSTAL â SEFYDLIADAU SY'N CYNRYCHIOLI'R DIWYDIANT FEL OPEC A SEFYDLIAD GLO Y BYD.
CAWSON NHW I GYD DDWEUD EU DWEUD.
DEWISWYD AWDURON YR IPCC O LEFYDD AR DRAWS Y BYD I GYD I GYNRYCHIOLI'R DDYNOLIAETH GYFAN...
. . AM EU HARBENIGEDD GWYDDONOL A THECHNEGOL OND HEFYD AM EU RHYW, GWLAD AC ARDAL FRODOROL. ROEDD EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD YN BERTHNASOL I BAWB !
ROEDD HI'N BWYSIG BOD ADRODDIADAU'R IPCC YN ADLEWYRCHU AMRYWIAETH POBLOEDD Y BYD.
ROEDDENT HEFYD YN FWRIADOL YN GWAHODD GWYDDONWYR NEWYDD I'R BROSES FEL NAD OEDD YR UN BOBOL YN YSGRIFENNU ADRODDIADAU TWY'R AMSER.


NID YN UNIG ROEDD Y GWYDDONWYR HYN YN DOD O LEFYDD AR DRAWS Y BYD,
ROEDDENT YN GWEITHIO AR EI DRAWS HEFYD.
AR DRAWS TIRWEDDAU AC YN EU LABORDAI,
ROEDDENT YN CASGLU'R DATA OEDD YN GALON I HOLL BROSES YR IPCC.



FE ASTUDION NHW SUT ROEDD YR HINSAWDD YN NEWID,
EFFEITHIAU'R NEWIDIADAU HYNNY,
A SUT I OSGOI'R GWAETHAF O'R EFFEITHIAU.
GYDA'R AWDURON WEDI EU DEWIS, DECHREUWYD YSGRIFENNU'R ADRODDIADAU O DDIFRI.



DR AEDES ALLWCH CHI EGLURO MWY OS GWELWCH YN DDA?
WRTH GWRS, MS DASKALOS. HELO BAWB. DWI'N YMCHWILIO I SUT MAE NEWID HINSAWDD YN CREU FFYRDD NEWYDD I AFIECHYDON YMLEDU AR DRAWS Y BYD.
FEL AWDURON YR IPCC, ALLWCH CHI DDIM DISGWYL I BAWB FOD YN GYFARWYDD GYDA PHOB RHAN O'R YMCHWIL A'R CANFYDDIADAU, FELLY RYDYM YN DIBYNNU AR ARBENIGWYR ERAILL YN EIN MEYSYDD.
RYDYM YN CYSYLLTU GYDA NHW, YN DYSGU AM BAPURAU NEWYDD, YN DARLLEN ADRODDIADAU AC YN SIARAD AM GANFYDDIADAU A THUEDDIADAU NEWYDD.
RYDYM YN CRYNHOI BETH YW'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AC YN RHANNU DRAFFTIAU O'N GWAITH GYDAG ARBENIGWYR ERAILL. RYDYM YN GWAHODD SYLWADAU A CHWESTIYNAU.
MAE HYNNY'N GOLYGU FOD UNRHYW UN SY'N MEDDWL EU BOD NHW'N ARBENIGWR YN GALLU GWNEUD SYLW AR DDRAFFT O'R ADRODDIAD.
AC AM BOB SYLW NEU GWESTIWN RHAID I NI'R AWDURON YMATEB, A CHYNNIG ESBONIAD NEU ATEB.
I BUMED ADRODDIAD ASESU'R IPCC 2014 ROEDD ODDEUTU 140,000 CWESTIWN GAN AROLYGWYR.



OND SUT YDACH CHI'N CAEL YR AWDURON YNGHYD?
O IA, CYFARFODYDD HIR YN MYND TRWY BOPETH GYDA CHRIB MÂN AC YN TRAFOD POB MANYLYN
FELLY MAE HYN FEL ASESIAD CYFOEDION ANFERTH O'R GWYBODAETH WYDDONOL SYDD WEDI CAEL ASESIAD CYFOEDION YN BAROD AC WEDI DAL EI DIR GYDA CHYFEIRIADAU AC ATI?
YDI.
FAINT DA CHI'N CAEL EICH TALU AM HYN?
BETH? NA ! MAE GWYDDONWYR YR IPCC YN WIRFODDOLWYR.
GWIRFODDOLWYR!
GYDA'R ADBORTH YNA I GYD,
GALL YR AWDURON GYHOEDDI'R ADRODDIAD TERFYNOL.
OND NID OEDD ADRODDIAD TRWCHUS, WEDI'I YSGRIFENNU'N DDA, YN CWRDD â'R GALW.
HOLL BWYNT YR IPCC OEDD I DDARPARU GWYBODAETH WYDDONOL I LYWODRAETHAU EI DEFNYDDIO I LYWODRAETHU'N WELL;
CHIRP CHIRP!
I OSGOI'R ARGYFWNG HINSAWDD.


NESAF, FE GLYWN GAN YR DR TEMPESTAS SY'N ASTUDIO TYWYDD A STORMYDD.
MAE AM EGLURO SUT WNAETH YR IPCC DDELIO GYDA'R BROBLEM FACH HONNO O SIARAD GWYDDONIAETH GYDA'R RHAI SYDD MEWN PŴER.
WEL, FE YSGRIFENNOM NI AIL ADRODDIAD, BYRRACH,
United Nations Framework Convention on Climate Change
WMO
UNEP
Summary for Policyma
ipcc
MEWN IAITH Y BYDDAI POBOL SYDD DDIM YN WYDDONWYR YN EI DEALL OND OEDD YN ADLEWYRCHU'R ADRODDIAD GWYDDONOL YN FANWL.
DYMA NI'N EU GALW NHW'N "*GRYNODEB I WNEUTHURWYR POLISI.*"
ANFONOM YR ADRODDIAD LLAWN A'R CRYNODEB I WNEUTHURWYR POLISI I'R HOLL LYWODRAETHAU IDDYNT EU HADOLYGU A CHYNNIG SYLWADAU, A GWNEUD ROWND ARALL O GEISIO CAEL YMATEBION.



ROEDD YNA GYFARFODYDD MAWR OEDD YN PARA DYDDIAU, YN AML IAWN, TRWY'R NOS HEFYD.
OND DOEDD O DDIM DROSODD ETO.
GYDA GWYDDONWYR A LLYWODRAETHAU YN YR UN YSTAFELL BYDDEM YN MYND DROS EIN *CRYNODEB I WNEUTHURWYR POLISI* LINELL WRTH LINELL A GAIR AM AIR.
ROEDD YNA DDADLEUON, RHAI TANBAID AR BRYDIAU.
COFIWCH, ROEDD Y LLYWODRAETHAU HYNNY'N CYNNWYS GWLEDYDD ROEDD EU HECONOMI CYFAN YN DIBYNNU AR WERTHU OLEW, GLO A NWY; A BYDDAI YNO HEFYD WLEDYDD AR YNYSOEDD BYCHAIN A FYDDAI'N DIFLANNU DAN DONNAU'R CEFNFOROEDD SY'N CODI.
ROEDD PAWB YN POENI'N FAWR.
AC ROEDDENT YN TRAFOD GYDA'R GRWPIAU ARSYLWI OEDD HEFYD YN POENI.


OND ROEDD O WERTH YR YMDRECH, Y NOSWEITHIAU HIR, Y DADLEUON TANBAID. AM DDAU RESWM:
YN GYNTAF, UN EFFAITH O'R HOLL DDADLAU OEDD CAEL GWELL ADRODDIADAU.
YR AIL, GAN BOD Y LLYWODRAETHAU'N CYMERADWYO'R TESTUN TERFYNOL A DERBYN YR ADRODDIADAU, DAETHANT YN ADRODDIADAU LLYWODRAETH YN HYTRACH NAC ADRODDIADAU GAN WYDDONWYR.
ROEDD POB ADRODDIAD IPCC YN FFRWYTH CONSENSWS RHYNGWLADOL CADARN YN SEILIEDIG AR WYBODAETH AM NEWID HINSAWDD, AR EI EFFEITHIAU AC AR Y FFYRDD I OSGOI'R GWAETHAF O'R EFFEITHIAU HYNNY.
IPCC REPORT
DWI'N GWELD, MAE O'N YR ENW YN TYDI? Y PANEL RHYNGLYWODRAETHOL AR NEWID HINSAWDD.
DIOLCH DOCTOR !
..AR Y NODYN HWNNW...
ER MOR RHYFEDD MAE O'I WELD HEDDIW, NID OEDD PAWB YN CYTUNO FOD YR HINSAWDD YN NEWID NAC MAI POBOL OEDD YN GYFRIFOL AM Y NEWID.
BETH? GO IAWN !
IE, GO IAWN.
GADWCH I MI GYFLWYNO'R ATHRO PECUNIA I EGLURO SUT WNAETH YR IPCC DDELIO GYDA HYNNY.
ECONOMEGYDD YDYCH CHI IA? BETH OEDD ECONOMEGYDD YN EI WNEUD GYDA'R IPCC ?



WEL, MAE POPETH MAE POBOL YN EI WNEUD YN TROI O AMGYLCH YR ECONOMI AC MAE HYNNY'N BENDANT YN WIR GYDA NEWID HINSAWDD.
MAE LLIFOGYDD MEWN DINASOEDD, NEU AMAETH YN METHU, YN COSTIO ARIAN AC YN GWNEUD DRWG I FASNACH, AC ROEDD NIFER O'R RHAI HYNNY DOEDD DDIM YN CREDU MEWN NEWID HINSAWDD YN POENI Y BYDDAI STOPIO NEWID HINSAWDD YN COSTIO ARIAN IDDYN NHW.
OND SUT WNAETHOM NI DDELIO GYDA PHOBOL DOEDD DDIM YN CREDU MEWN NEWID HINSAWDD, DYNA OEDD EICH CWESTIWN.
WEL, OES OEDD GYDA NHW ARBENIGEDD, ROEDDEM YN EU GWAHODD NHW I FOD YN RAN O'R BROSES.
ROEDD RHAI Y TU MEWN I'R IPCC BETH BYNNAG GYDA GWLEDYDD OEDD YN GYNHYRCHWYR OLEW PWYSIG A GRWPIAU DIWYDIANT YN ARSYLWI.
UNWAITH, GOFYNNWYD I UN O'R RHAI OEDD YN GWADU NEWID HINSAWDD FOD YN BRIF AWDUR AR ADRODDIAD YR IPCC.
PE BYDDAI GYDA NHW DYSTIOLAETH GADARN WYDDONOL BYDDAI WEDI NEWID YR ADRODDIADAU.
OND ROEDD ADOLYGIAD MOR DRYLWYR O BOB FFRWD O DYSTIOLAETH, I GYD YN PWYNTIO I'R CANLYNIAD SEF...
WEL, DOEDD O DDIM WASTAD MOR HAWDD â HYNNY. OND ROEDD O'N GWNEUD YR ADRODDIADAU'N WELL.
ROEDD EU CAEL NHW'N RHAN O'R BROSES YN GWNEUD I NI WEITHIO'N GALETACH I GANFOD BETH OEDD YR ATEBION CYWIR.


DIOLCH I CHI'R ATHRO PECUNIA..RYDYCH WEDI BOD YN HELP MAWR.
NAWR...DEWCH I NI GRYNHOI.
MAE DEALLTWRIAETH O NEWID HINSAWDD, EI EFFEITHIAU A FFYRDD O ACHUB EIN HUNAIN O'R GWAETHAF O'R EFFEITHIAU HYNNY WEDI EI GAEL TRWY I FILOEDD O WYDDONWYR DDEFNYDDIO'R DULL GWYDDONOL.
ROEDD Y CANFYDDIADAU HYNNY YN CAEL EU GWIRIO A'U MINIOGI TRWY ADOLYGIAD CYFOEDION AC YN CAEL EI GYNNAL TRWY GAEL EI GYFEIRIO ATO GAN WYDDONWYR ERAILL.
ROEDD GWYDDONWYR GWIRFODDOL YR IPCC YN CYFUNO'R HOLL GANFYDDIADAU HYN I WNEUD YN SIŴR FOD MWY NEU LAI YR HOLL ARBENIGWYR YN Y BYD YN CYTUNO ARNYNT.
YNA YN SICRHAU FOD MWY NEU LAI POB LLYWODRAETH YN Y BYD HEFYD YN CYTUNO, HYD YN OED AR FANYLDER LLINELL WRTH LINELL YR ADRODDIAD.
ipcc
ONID DYNA'R PETH FWYAF ANHYGOEL? HOLL WYDDONWYR A LLYWODRAETHAU'R BYD YN GYTÛN.


MEDDYLIWCH PA MOR ANODD FYDDAI I BOB UN OHONOCH ROI TRAETHAWD I'R YSGOL, TRAETHAWD AR BWNC RYDYCH CHI'N TEIMLO'N GRYF IAWN AMDANO, AC Y BYDDAI'N RHAID I CHI GYD GYTUNO AR BOB UN GAIR, A BOD YN SICR EI FOD O'N GYWIR.
DYNA PAM Y MAE GWAITH YR IPCC YN CAEL EI YSTYRIED BELLACH FEL Y LLWYDDIANT POLISI-GWYDDONIAETH MWYAF YN HANES Y DDYNOLIAETH.
ipcc
UNRHYW GWESTIYNAU?
IE ANNI ?
PAM WNAETHON NHW WIRFODDOLI ?
DR AEDES, MAE ANNI'N GOFYN PAM WNAETH Y GWYDDONWYR WIRFODDOLI.
MAE'N RHAID EI FOD O WEDI CYMRYD CANNOEDD O ORIAU O WAITH, A CHWYS A DAGRAU.
WEL, MAE O'N BWYSIG. RYDYCH WEDI CLYWED AM LIFOGYDD MEWN DINASOEDD A METHIANNAU MEWN AMAETH A FYDDAI WEDI GALLU ARWAIN AT NEWYN. HEFYD, DWI'N CAEL GWEITHIO GYDA PHOBOL GLYFAR, RHAI SY'N UCHEL EU PARCH A DWI'N DYSGU LLAWER.



OND YN BENNAF, MAE O'N BWYSIG. UNRHYW BETH Y GALLAF EI WNEUD I HELPU BWRW ATI GYDAG UN O'R PRIF BROBLEMAU SY'N WYNEBU POBOL, FYDDAI'N MYND AMDANI!
PA MOR BWYSIG? GWRANDEWCH AR STORI.
YMHELL YN ôL, PAN OEDD POBOL YN DECHRAU SYLWEDDOLI BETH OEDD NEWID HINSAWDD YN EI OLYGU, FE RODDODD YSGYDWAD I BOBOL.
ROEDD ECOLEGYDD MOROL MEWN CYFARFOD. ROEDD HYN YN 1998.
ROEDDENT YN TRAFOD CEMEG DŵR MôR. SUT ROEDD CARBON DEUOCSID YN YR AER YN CYMYSGU MEWN I'R CEFNFOROEDD AC YN NEWID EU HASIDEDD . .
MEWN AMRANTIAD, ROEDD GANDDI WELEDIGAETH GLIR O'R HYN OEDD MEWN PERYGL.
. . . Y POSIBILRWYDD O ECOSYSTEMAU MOROL YN CAEL EU DINISTRIO A PHOB RIFF CWREL. GALLAI CADWYNI BWYD CHWALU !




YN LWCUS IAWN, FE WNAETH DDISGYBLION YSGOL YR ADEG HYNNY RYWBETH MWY NA CHWERTHIN AR Y SEFYLLFA ANGHYFFORDDUS . . . ROEDDEN NHW'N CREDU EI FOD O'N ANNIODDEFOL, AC FELLY FE WNAETHON NHW RYWBETH.


FE ADAWON NHW EU 'STAFELLOEDD DOSBARTH . .
THE CLIMATE is CHANGING WHY AREN'T WE?
THERE IS NO PLANET B
CLIMATE STRIKE
IT'S TIME TO ACT
SAVE OUR ONLY HOME
. . . A GORYMDEITHIO AR STREICIAU YSGOL DYDDIAU GWENER,
It's getting hot in here!
YOUTH POWER
1.5°C IT MUST BE
NO PLAN B
. . AC FE WNAETH OEDOLION YMUNO EFO NHW.
WHAT ABOUT MY FUTURE?




FE BLEIDLEISION NHW DROS WLEIDYDDION OEDD YN GWEITHREDU.


AC FE WNAETHON NHW ROI'R GORAU I GREDU Y RHAI SY'N GWADU NEWID HINSAWDD.
FE WNAETHON NHW NEWID CWRS HANES !
OHERWYDD PAM ?
OHERWYDD YR IPCC !



WWW.BECAUSEIPCC.SCIENCE


BECAUSE IPCC IS A PROJECT OF SUCCESSION, A CANADIAN CHARITY.

WITH THANKS TO NICOLE MARIE BURTON (ART) & HUGH GOLDRING (SCRIPT) - CANADA

GYDA DIOLCH ARBENNIG I SAMANTHA RICARDO – CANADA, A AWEL TREVOR & GARETH F ROBERTS - CYMRU

AC AR GYFER CEFNOGAETH CYMDEITHAS CENEDLAETHAU UNEDIG - MENAI

WELSH LANGUAGE EDITION PRODUCED BY RICHARD A SHIRRES ~ HYDREF 2021


UNA MENAI

https://www.ipcc.ch

CHYMDEITHAS Y CENHEDLOEDD UNEDIG - MENAI

PEN LLŶN CLIMATE SHOUT !

The United Nations Association UK is a non-governmental organization that exists to raise public awareness of the UN and promote the aims of the UN. The UNA-Menai is a local association of Northern Wales.